# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

# Adroddiad 2013 – 2014

## Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio yn gweithio i sicrhau bod anghenion penodol pobl hŷn yn cael eu hystyried yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac y gall Aelodau'r Cynulliad sydd â diddordeb mewn materion pobl hŷn ddod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Dyma aelodau'r grŵp:

- Mike Hedges AC (Cadeirydd);
- Mark Isherwood AC;
- Darren Millar AC;
- Keith Davies AC;
- Kirsty Williams AC;
- Lindsay Whittle AC;
- Rebecca Evans AC;
- Aled Roberts AC;
- Laura Nott, Age Cymru (Ysgrifennydd)

## Datganiad gan y Cadeirydd

Yn ystod sesiwn 2013-14, mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi dilyn rhaglen waith amrywiol. Mae wedi canolbwyntio arbroblemau fel sgamiau ariannol, tlodi tanwydd a thoiledau cyhoeddus.

Mae'r grŵp wedi cael effaith wirioneddol drwy godi ymwybyddiaeth o faterion yn y cyfryngau ac yn y Cynulliad Cenedlaethol, cynnal ymchwil gyda Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, a chyfathrebu â Gweinidogion y Llywodraeth.

*llofnod*

**Mike Hedges AC**

9 Hydref 2013

**Pwnc: Sgamiau a thwyll**

Cafwyd cyflwyniadau gan Andrew Bertie, Scambusters a Gerry Keighley, Cydlynydd Ymgyrchoedd, Age Cymru.

Mae Tîm y Scambusters yn mynd i'r afael â phobl sy'n galw'n ddiwahoddiad drwy Gymru, gan gynnwys masnachwyr twyllodrus sy'n mynd o ddrws i ddrws, a throseddau ym maes busnes. Mae ganddynt y pŵer i erlyn 'sgamwyr', ac i fynd ati i adennill arian ar gyfer dioddefwyr drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau. Ar hyn o bryd, mae Scambusters yn gweithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau, gan gynnwys Age Cymru, i ledaenu'r neges am sgamiau yng Nghymru.

Gerry Keighley yw Cydlynydd yr ymgyrch 'Sgamiau a thwyll'. Mae wedi bod yn siarad â phobl hŷn, sydd wedi sôn wrtho sut y cawsant eu llethu a'u dychryn gan sgamiau a thechnegau gwerthu sy'n rhoi pwysau ar y cwsmer. Roeddent yn teimlo'n rhwystredig, ac yn ofni eu bod wedi cael eu camarwain. Roeddent hefyd yn poeni, ac yn cael eu dychryn weithiau, gan bobl sy'n galw heibio i werthu rhywbeth nad oes arnynt ei eisiau na'i angen, er enghraifft, dreif neu do newydd. Mae pobl hŷn yn dal i gael eu hebrwng i'r banc gan dwyllwyr i dynnu symiau mawr allan – mae'n dechrau â chnoc ar y drws.

**Argymhellion/camau i'w cymryd**

- Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol i gydlofnodi Datganiad o Farn i gefnogi ymgyrch Scambusters ac Age Cymru yn erbyn sgamiau.
- Y Grŵp Trawsbleidiol i ysgrifennu at Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol, i ofyn beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i fynd i'r afael â sgamiau.

- Darganfod pwy sy'n gyfrifol am sgamiau ar garreg y drws drwy Gomisiwn y Cynulliad. Y Cynulliad ynteu San Steffan?
- Mike Hedges AC a Mark Isherwood AC i weithio'n agosach gyda banciau wrth drafod problemau sgamio.

**Yn bresennol**

| |
|---|
| Mike Hedges AC, Cadeirydd |
| Darren Millar AC |
| Janet Finch-Saunders AC |
| Mark Isherwood AC |
| Julie Morgan AC |
| Lindsay Whittle AC |
| Steve Cushen, Staff Cymorth (Mike Hedges AC) |
| Jackie Radford, Staff Cymorth (Aled Roberts AC) |
| Gerry Keighley, Age Cymru |
| Andrew Bertie, Scambusters |
| Tim Hodgson, Scambusters |
| Chris Jones, Gofal a Thrwsio |

| |
|---|
| Cymru |
| Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro |
| Daisy Cole, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Monika Hare, Rhwydwaith Pobl Hŷn a Heneiddio Cymru |
| Roby Miles, Glaxo Smith-Kline |
| Graeme Francis, Age Cymru |
| Laura Nott, Age Cymru,Ysgrifennydd |

**5 Chwefror 2014**

**Pwnc: Tlodi Tanwydd**

Cafwyd cyflwyniadau gan Carole Morgan-Jones, NEA Cymru a chyd-Gadeirydd Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru a Lee Parry, Pennaeth Nest.

Elusen yw NEA sydd wedi ymrwymo i ddileu tlodi tanwydd a sicrhau cynhesrwydd fforddiadwy i bawb. Mae'r elusen yn bod ers dros 30 mlynedd ac NEA Cymru sy’n ei chynrychioli yng Nghymru. Eglurodd Carole Morgan-Jones fod tlodi tanwydd yn cael ei ddiffinio fel yr angen i wario dros 10% o incwm y cartref ar gostau tanwydd i fd yn ddigon cynnes i fod yn iach ac yn gysurus ac os oes angen i deulu wario 20% neu fwy o'u hincwm ystyrir eu bod mewn tlodi

tanwydd difrifol. Yn 2012, amcangyfrifwyd bod 30% o deuluoedd Cymru mewn tlodi tanwydd.

Cyflwynodd Lee Parry y rhaglen Nyth drwy egluro mai cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw hwn. Ei nod yw helpu pobl mewn tlodi tanwydd drwy addasu cartrefi fel eu bod yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Gall Nest ddarparu gwahanol fathau o gymorth o fesurau i wella cartrefi, cynnal archwiliadau i weld a all pobl hawlio budd-daliadau a chyfeirio pobl at sefydliadau eraill a all helpu. Cyflwynodd Lee Parry drosolwg ar waith rhaglen Nyth hyd yma, a sut y mae wedi helpu pobl hŷn.

**Argymhellion / camau i'w cymryd**

- Y CPG i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn a ddylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Grŵp Cynghori'r Gweinidogion
- Mike Hedges i gwrdd â Mark Isherwood i drafod y posibilrwydd i'r ddau Grŵp Trawsbleidiol (Pobl Hŷn a Heneiddio a Thlodi Tanwydd) weithio mewn partneriaeth.
- Un awgrym ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf oedd incwm isel
- Argymhellodd Mike Hedges y dylid gwahodd y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi i gyfarfod ymhen 12 mis

**Yn bresennol**

| |
|---|
| Mike Hedges AC, Cadeirydd |
| Darren Millar AC |
| Keith Davies AC |
| Mark Isherwood AC |
| Steve Cushen, Staff Cymorth (Mike Hedges AC) |
| Nicholas Wall, Staff Cymorth (Mike Antoniw) |
| Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro |
| Monika Hare, Rhwydwaith Pobl Hŷn a Heneiddio Cymru |
| Jackie Radford, Staff Cymorth (Aled Roberts AC) |
| Andrew Bell, SSIA |
| Emily Warren, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| |
|---|
| Dr Phil Evans, ADSS Cymru |
| John Vincent, Senedd Pobl Hŷn Cymru |
| Phyllis Preece, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol |
| John Davies, Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru |
| Nancy Davies, Fforwm Pensiynwyr Cymru |
| Phil Vining, Age Connects Caerdydd a'r Fro |
| Neil Williams, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Iwan Williams, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Carole Morgan-Jones, NEA Cymru a chyd-Gadeirydd Cynghrair Tlodi Tanwydd Cymru |

| | |
|---|---|
| Lee Parry, Pennaeth Nest - Ynni Cymunedol, Nwy Prydain | Gerry Keighley, Age Cymru |
| Graeme Francis, Age Cymru | Laura Nott, Age Cymru,Ysgrifennydd |

**7 Mai 2014**

**Pwnc: Toiledau cyhoeddus a'r Bil Iechyd y Cyhoedd newydd**

Cyflwyniad gan John Vincent, Senedd Pobl Hŷn Cymru.

Rhoddodd John Vincent drosolwg ar Senedd Pobl Hŷn Cymru, sy'n rhoi llais i bobl hŷn drwy'r fforymau 50+. Un o'u hymgyrchoedd yw 'P am Pobl', i ddiogelu toiledau cyhoeddus yng Nghymru.

Ysgrifennodd Senedd Pobl Hŷn Cymru adroddiad yn ddiweddar yn galw am y canlynol:

- **Llywodraeth Cymru** i ddarparu mwy o arian ar gyfer y **Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus** ac adfer y drefn o neilltuo arian yng nghyllidebau awdurdodau lleol drwy ei ddyrannu fel grant unigol y tu allan i'r Grant Cynnal Refeniw.
- Awdurdodau lleol i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei hyrwyddo / hysbysebu'n effeithiol a hynny mewn fformatau printiedig a digidol.
- Rhoi dyletswydd statudol (sy'n cael ei fonitro a'i orfodi gan Lywodraeth Cymru) ar **Awdurdodau lleol** i sicrhau, fel hawl sylfaenol a ffordd o ddiogelu iechyd y cyhoedd, fod digon o doiledau cyhoeddus sy'n eiddo i'r awdurdod lleol a / neu doiledau preifat y gall y cyhoedd eu defnyddio, ar gael ym mhob tref / dinas fawr yng Nghymru.

**Argymhellion/camau i'w cymryd**

- Cytunodd Mark y dylid anfon cofnodion y cyfarfod hwn fel llythyr i'w ystyried yn ymgynghoriad y Bil Iechyd y Cyhoedd.
- Awgrymodd Mark Isherwood AC y dylid anfon llythyr at y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â safon toiledau cyhoeddus a'r gallu i'w defnyddio, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio toiledau cyhoeddus mewn banciau a llyfrgelloedd.

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AC - CADEIRYDD | Simon Wilkinson, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Julie Morgan AC | John Vincent, Senedd Pobl Hŷn Cymru |

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC | Phyllis Preece, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol |
| Mark Major, Staff Cymorth Suzy Davies AC | John Davies, Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru |
| John Vincent, Senedd Pobl Hŷn Cymru | Nancy Davies, Fforwm Pensiynwyr Cymru |
| Iwan Williams, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn | Gareth Powell |
| Lynda Wallis, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro | Graeme Francis, Age Cymru |
| Carol Maddock, Rhwydwaith Pobl Hŷn a Heneiddio Cymru | Gerry Keighley, Age Cymru |
| Robin Moulster, BASW Cymru | Laura Nott, Age Cymru – YSGRIFENNYDD |
| Andrew Bell, SSIA | |
| Lorraine Morgan | |

**Adroddiad Ariannol 2013 – 14**

**Incwm:** **Dim**

**Gwariant (y telir amdano gan Age Cymru):**

- Arlwyo 9 Hydref 2013: £82.08
- Arlwyo 5 Chwefror 2014: £155.76
- Arlwyo 7 Mai 2014: £62.88

Gwasanaeth Arlwyo gan Charlton House Catering catering.cardiffbay @ cymru.gov.uk 02920 898077

**Cyfanswm:** £300.72